



ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2023/24

YMA I CHI

WWW.CBAC.CO.UK

CYNNWYS

| | | |
|-----------|--|-----------|
| 01 | Yma i chi | 4 |
| | Cefnogi ysgolion a cholegau ledled Cymru | 4 |
| 02 | Cyflwyno cymwysterau ac asesiadau blaenllaw | 6 |
| | Gwnaed i Gymru. Yn barod i'r byd. | 8 |
| | Sicrhau cydraddoldeb wrth ddatblygu cymwysterau | 12 |
| | Ein Swyddogion Pwnc: Annog athrawon i lwyddo: cefnogi'r broses o gyflwyno ein cymwysterau | 14 |
| | Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Gwneud-i-Gymru newydd | |
| | Effaith drawsnewidiol Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen | 16 |
| 03 | Llunio dyfodol addysg yng Nghymru | 18 |
| | Helpu dysgwyr i ganfod eu dyfodol | 20 |
| | Dathlu cynhwysiant: Dramâu Cymraeg i bob cynulleidfa | 22 |
| | Wedi'u Teilwra i Sicrhau Llwyddiant: Adnoddau y gellir eu haddasu i wella'r broses o gyflwyno cymwysterau Gwneud-i-Gymru | 24 |
| | Cyfoethogi hyder athrawon ag arbenigedd Gwneud-i-Gymru | 26 |
| 04 | Gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth | 28 |
| | Gwrando ar benaethiaid, athrawon, darlithwyr a dysgwyr: Ymweld ag ysgolion a cholegau i gyfoethogi a chryfhau ein perthnasoedd | 30 |
| 05 | Buddsoddi yn ein mathemategwyr: Cyhoeddi derbynwyr Bwrsari Gareth Pierce eleni | 31 |
| | | |
| | Dathlu'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr | 32 |
| 06 | Gwobrau Arloesedd: Arddangos talent Cymru a dyluniadau arloesol | 34 |
| | | |
| | Buddsoddi yn ein pobl a'n planed | 36 |
| | Ailgyrchu, aildefnyddio a lleihau. Meithrin diwylliant o ymwybyddiaeth amgylcheddol | 38 |



Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC

Mae'r flwyddyn hon yn garreg filltir arwyddocaol, pan fyddwn yn cyhoeddi ein ton gyntaf o fanylebau cymeradwy Gwneud-i-Gymru i'w haddysgu o fis Medi 2025. Mae'r cyflawniad hwn yn deillio o ymroddiad ein timau a'r mewnbwn hanfodol gan randdeiliaid ledled Cymru, yr oedd eu hadborth yn hanfodol wrth lunio'r cymwysterau arloesol hyn.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith yn ddidrafferth, byddwn yn parhau i gefnogi ein hysgolion a'n colegau gyda chysiau dysgu proffesiynol cenedlaethol wedi'u teilwra ac adnoddau digidol y gellir eu haddasu, i'w grymuso i gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn yn llawn hyder.

I gyd-fynd â'r garreg filltir hon, rydym wedi datgelu ein Rhaglen Dyfodol – cyfres arloesol o gymwysterau Galwedigaethol sy'n mynd i'r afael ag anghenion heddiw ac yfory. Ni yw'r bwrdd arholi cyntaf yn y DU i gynnig cymwysterau ar Led-ddargludyddion a Chynaliadwyedd, ac rydym yn pontio bylchau addysgol ac yn agor llwybrau newydd i sicrhau llwyddiant i ddysgwyr. Bydd ein dull blaengar yn rhoi sgiliau i ddysgwyr i wynebu heriau yfory, gan osod safon newydd mewn rhagoriaeth addysgol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae ein hymdrechion ar y cyd wedi ehangu ar draws meysydd amrywiol. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau gan gynnwys Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL), ACT (hyfforddwr mwyaf Cymru), CSconnected (clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd) a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i sicrhau bod ein cymwysterau newydd yn gynhwysol, yn berthnasol ac yn cydweddu â diwydiant. Mae'r cynghreiriau hyn wedi ein galluogi i ddatblygu darpariaeth arloesol a gwella rhai sy'n bodoli eisoes. O ganlyniad, mae ein portffolio sydd wedi'i atgyfnerthu bellach yn cynnig amrywiaeth ehangach o gyfleoedd, o fudd i ddysgwyr ledled Cymru.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n hysgolion, colegau a fy nghydweithwyr yn CBAC am eu cefnogaeth amhrisiadwy a'u gwaith caled. Hoffwn eich gwahodd i ddarllen ein Hadolygiad Blynyddol a chymryd rhan weithredol yn ein datblygiadau parhaus. Fel bob amser, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnig y lefel uchaf o gymorth, cyngor ac arweiniad sy'n ddisgwyliedig gennym erbyn hyn.

Ian Morgan



Joanna Moonan
Cadeirydd Bwrdd
y Cyfarwyddwyr, CBAC

Wrth i ni edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus arall, rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i gefnogi cymunedau addysgol ledled Cymru. Mae ein hymdrechion yn parhau i roi CBAC ar flaen y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm a chyflwyno cymwysterau.

Mae'n galonogol gweld CBAC yn cefnogi nodau cwricwlwm newydd Cymru. Drwy addasu ein cymwysterau a'n hadnoddau i gyd-fynd â'r amcanion arloesol hyn, rydym yn dangos ein hymrwymiad fel partner addysg y gellir ymddiried ynddo yng Nghymru.

Mae CBAC yn sicrhau y gall addasu o hyd mewn ymateb i newidiadau mewn dysgwyr a chymdeithas. Rydym yn diweddarau ein cymwysterau'n barhaus, gan ddangos ein hymrwymiad i arloesedd a gwerthuso. Mae'r hyblygrwydd hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ffynnu mewn marchnad fyd-eang, gan eu paratoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

Wrth i ni edrych ymlaen, mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn hyderus y bydd CBAC yn parhau i gydweithio'n agos ag addysgwyr a thu hwnt. Byddwn yn creu cymwysterau sydd wedi'u teilwra ar gyfer Cymru a'i dysgwyr amrywiol, gan groesawu dull o adeiladu ar y cyd gyda mewnbwn gan bob rhanddeiliad.

Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch o galon i CBAC am ei berfformiad eithriadol y flwyddyn hon. Mae ymdrech ac ymrwymiad pawb yn y sefydliad wedi bod yn hanfodol yn ein cyflawniadau, gan roi hwb i'n llwyddiant a'n heffaith ym myd addysg.

Joanna Moonan

Yma i chi:

Cefnogi ysgolion a cholegau ledled Cymru

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i ddarparu cymwysterau dwyieithog cynhwysol, gan gynnig cymorth dan arweiniad arbenigwyr i athrawon a dysgwyr, ynghyd ag asesiadau modern a hygyrch i ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Yn ddiweddar, gwnaethom lansio ton gyntaf cyfres newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i roi cymorth arweiniol i ysgolion a cholegau ledled Cymru wrth iddynt gyflwyno ein cymwysterau.

Mae cydweithio'n agos â'n rhanddeiliaid gwerthfawr yn hollbwysig i ni ac rydym yn parhau i feithrin cydberthnasau sydd o fudd i'r ddwy ochr gyda chymunedau addysgol ledled Cymru, o ysgolion, colegau, grwpiau eiriolaeth, pwyllgorau llywodraethu, consortia rhanbarthol a Cymwysterau Cymru.

Bydd dull cydweithredol yn ein helpu i gefnogi cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru o gynnig addysg sy'n rhoi blaenoriaeth i gyflawni 'safonau a dyheadau uchel i bawb'.

Fel elusen gofrestredig, rydym yn ymrwymedig i ailfuddsoddi yn y gwaith parhaus o wella ein hadnoddau addysgu, ein hamrediad o gymwysterau a chymorth un-i-un.



Dysgwch fwy am ein hymrwymiad i ailfuddsoddi mewn addysg:

www.cbac.co.uk/Elusen



Eich cefnogi o'r dechrau

Gyda thîm o fwy na 500 o arbenigwyr medrus a gwybodus, mae ein timau angerddol yn ymrwymedig i'ch cefnogi drwy gydol eich taith addysgu.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn cynnig cymorth uniongyrchol i athrawon a darlithwyr drwy bob cam o'n proses o gyflwyno cymwysterau, o addysgu i ddyfarnu graddau terfynol.

Cymwysterau cynhwysol ar gyfer Cymru fodern

Rydym yn deall bod Cymru heddiw yn wlad ddisglair, amrywiol a ffyniannus, ac rydym yn benderfynol o gyflwyno cymwysterau sy'n adlewyrchu hyn.

Mae ein cymwysterau wedi'u cynllunio i adlewyrchu amrywiaeth, cynwysoldeb a pherthyn, gan sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn berthnasol i ddysgwyr ledled y wlad.

Gwella eich addysgu gyda'n hadnoddau am ddim

Rydym yn parhau i gynnig pecyn cynhwysfawr o adnoddau digidol dwyieithog AM DDIM i gefnogi'r broses o gyflwyno ein hamrywiaeth gynyddol o gymwysterau.

Mae pob adnodd wedi'i ddatblygu gan ein Tîm Adnoddau Digidol ymroddedig ynghyd â'n Harbenigwyr Pwnc i sicrhau eu bod yn meithrin y setiau sgiliau angenrheidiol ac yn parhau i ymgysylltu â dysgwyr a'u hysbrydoli.



CBAC RHAI O'R NIFEROEDD



Dyfarnwyd dros
536,000

o gymwysterau yn 2023/24

Gwnaethom ddatblygu mwy na

5,000 AWR

o gynnwys Dysgu Cyfunol

1,000 o gymhorthion
adolygu wedi'u
cynhyrchu

Gwnaethom farcio mwy nag

1 MILIWN

o bapurau, asesiadau di-arholiad
ac arholiadau llafar yn 2023/24



ADRAN 02

Cyflwyno cymwysterau ac asemiadau blaenllaw



Gwnaed i Gymru. Yn barod i'r byd.

Ein ton gyntaf o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig

Gan fod y manylebau wedi'u cymeradwyo ar gyfer ein ton gyntaf o gymwysterau Gwneud-i-Gymru bellach ar gael i athrawon a darlithwyr ledled Cymru, mae'n bwysig myfyrio ar y gwaith caled a'r ymroddiad sydd wedi ein galluogi i gyrraedd y garreg filltir arwyddocaol hon, wrth edrych ymlaen at ddatblygiadau yn y dyfodol.

Taith Ton 1

Drwy gydol y don gyntaf o ddatblygu cymwysterau, mae ein tîm Datblygu Cymwysterau wedi arwain ein dull o adeiladu ar y cyd drwy gydweithio â thimau Pwnc a rhanddeiliaid ledled Cymru a thu hwnt. Mae'r dull hwn wedi ein galluogi i ddatblygu deunyddiau, cyhoeddi dogfennau ac ymateb i adborth yn effeithlon, gan sicrhau bod ein cymwysterau yn gynhwysol, yn ddifyr, yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, ac yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr ledled Cymru yn y dyfodol.

Cydweithio i gyrraedd ein nod

Er mwyn sicrhau bod lleisiau o bob cwr o Gymru yn cael eu clywed ac i sicrhau bod ein cymwysterau yn cydweddu ag anghenion datblygol ein cymdeithas amrywiol a dynamig, rydym wedi casglu adborth o amrywiaeth eang o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol, elusennau, athrawon, darlithwyr a dysgwyr. Drwy ddefnyddio'r dull cyfannol hwn, rydym wedi ystyried safbwyntiau a barn y sawl sydd ar lefel polisi a phobl o bob rhan o'r gymuned addysg.



Codi ymwybyddiaeth o ysgolion i'r Senedd

Fel rhan o'n gweithgareddau ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o'n taith Gwneud-i-Gymru, ymwelodd ein Prif Weithredwr, Ian Morgan, ag ysgolion amrywiol ledled Cymru i siarad â'n hathrawon, ein darlithwyr a'n dysgwyr a gwrando arnynt.

I gyd-fynd â'r ymweliadau hyn, mae aelodau o'n tîm Arwain Gweithredol wedi cyflwyno ein gwaith i ddatblygu Ton 1 i amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys Gweinidogion yn y Senedd, grwpiau addysgu a grwpiau undeb a fforymau barn fel Fforwm Polisi Cymru.



Llinell amser Ton 1



Hydref 2023

- Agor cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad amlinellu pynciau
- Sefydlu ein Grwpiau Cynghori



Gaeaf 2024

- Cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriadau



Gwanwyn 2024

- Cyhoeddi gwaith Dysgu Proffesiynol yn tynnu sylw at nodweddion allweddol pob cymhwyster newydd a sut y byddant yn cael eu hasesu
- Rownd gyntaf cyflwyno'r Manylebau drafft i Cymwysterau Cymru



Haf 2024

- Ail rownd cyflwyno Manylebau drafft i Cymwysterau Cymru



Hydref 2024

- Cyhoeddi'r manylebau wedi'u cymeradwyo
- Cyflwyno 'Cyflwyniad i Fanylebau' gan Dysgu Proffesiynol



Gaeaf 2024-25

- Cyhoeddi Deunyddiau Asesu Enghreifftiol
- Cyhoeddi Canllawiau Addysgu
- Dechrau'r broses o gyhoeddi adnoddau Gwneud-i-Gymru newydd y gellir eu haddasu



Gwanwyn 2025

- Sioeau Teithiol ledled Cymru: Digwyddiadau "Paratoi i Addysgu" wyneb yn wyneb
- Dysgu Proffesiynol i gefnogi dealltwriaeth o'r trefniadau asesu ar gyfer pob cymhwyster newydd



Haf 2025

- Cyhoeddi adnoddau ychwanegol Gwneud-i-Gymru



Hydref 2025

- Dechrau addysgu'r don gyntaf o gymwysterau Gwneud-i-Gymru
- Cyhoeddi'r gyfres lawn o adnoddau Gwneud-i-Gymru, gyda 130 o becynnau newydd

Cydweithio yw'r gair allweddol yma, ac rydym yn gweithio i greu cymwysterau y gall y sector addysg cyfan ymddiried ynddyn nhw.

Richard Harry | Cyfarwyddwr Gweithredol: Cymwysterau ac Asesu

Ein Grwpiau Cyngtori

Roedd lansio ein Grwpiau Cyngtori yn ystod hydref 2023 yn garreg filltir allweddol ar gyfer ein dull o adeiladu ar y cyd, gan ei fod wedi ein galluogi i gasglu adborth o bob cwr o Gymru.

Drwy sefydlu ein Grŵp Cyngtori Rhanddeiliaid Cyffredinol, ein Grŵp Cyngtori ar Ddatblygu Cymwysterau, ein Grŵp Cyngtori Undebau a'n Grŵp Cyngtori Dysgwyr, gwnaethom annog sgyrsiau agored a chreu cyfleoedd i fod yn rhan o'n taith datblygu.

Ymunais â'r Grŵp Cyngtori i ddarparu adborth uniongyrchol o safbwynt dysgwr, gan roi arsylwadau ac argymhellion ar feysydd cymwysterau ac arholiadau.

Alfie Jones
Aelod o'r Grŵp Cyngtori Dysgwyr



GRŴP CYNGHORI DYSGWYR

24 o gynghorwyr
dysgwyr

14 o ysgolion
yn gysylltiedig



GRŴP CYNGHORI AR DDATBLYGU CYMWFYSTERAU

170 o gynghorwyr
sy'n athrawon

100 o ysgolion yn
gysylltiedig



GRŴP CYNGHORI UNDEBAU

6 undeb
yn cael ei gynrychioli



GRŴP RHANDDEILIAID CYFFREDINOL

55 o sefydliadau'n
cael eu cynrychioli

Y cymorth sydd ar gael

Er mwyn cefnogi'r broses o roi ein ton gyntaf o gymwysterau newydd ar waith a'u cyflwyno, y bydd y gwaith o'u haddysgu yn dechrau o fis Medi 2025, rydym yn cynnig pecyn eang o gymorth sy'n cynnwys:

- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol: y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau ym mis Rhagfyr, a fydd yn dynodi'r math o asesiadau a gaiff y dysgwyr.
- Canllawiau Addysgu: bydd ein Canllawiau Addysgu ar gael o fis Ionawr, a byddant yn rhoi arweiniad manwl ar sut i gyflwyno pob cymhwyster yn effeithiol.
- Pecyn cynhwysfawr o adnoddau y gellir eu haddasu sydd AM DDIM: mae ein tîm Adnoddau Digidol ymroddedig wrthi'n cydweithio â'n Swyddogion Pwnc i ehangu'r gyfres o adnoddau. Bydd y gyfles gyflawn ar gael erbyn haf 2025.
- Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol: gan ddechrau yr hydref hwn, bydd pecyn cyflawn o gyrsiau hyfforddiant AM DDIM ar gael i athrawon a darlithwyr, gan gynnwys cymysgedd o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Yn y gwanwyn, byddwn yn lansio digwyddiadau "Paratoi i addysgu" wyneb yn wyneb ledled Cymru, Diwrnod HMS cenedlaethol yn y gwanwyn gyda 15 o ddigwyddiadau dysgu ledled Cymru.
- Cymorth pwnc-benodol: gan ein tîm o Swyddogion Pwnc, sy'n barod i rannu eu blynyddoedd o arbenigedd a gwybodaeth addysgu â chi yn ystod y cyfnod cyffrous hwn o newid.
- Diweddariadau rheolaidd: ar ein tudalennau gwe, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n negeseuon e-bost wedi'u teilwra i athrawon/darlithwyr.

Datblygiadau nesaf

Nawr bod ein manylebau wedi'u cymeradwyo ar gyfer y don gyntaf o gymwysterau Gwneud-i-Gymru wedi cael eu cyhoeddi, mae ein gwaith yn parhau. Mae ein timau eisoes yn brysur yn gweithio ar y broses o ddatblygu ein hail don o gymwysterau Gwneud-i-Gymru i'w haddysgu o fis Medi 2025. Yn union fel y gwnaethom ar gyfer ein ton gyntaf o gymwysterau, byddwn yn:

- Cynnal proses ymgynghori drylwyr i asesu cryfderau a gwendidau pob cymhwyster.
- Mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, gan geisio eu hadborth gwerthfawr cyn cadarnhau amlinellau'r cymwysterau.
- Cyhoeddi amlinellau terfynol y cymwysterau yn gynnar y flwyddyn nesaf.
- Cyflwyno ein manylebau drafft cychwynnol i Cymwysterau Cymru erbyn gwanwyn 2025.
- Cyhoeddi ein manylebau terfynol ar gyfer ein hail don o gymwysterau erbyn haf 2025.

Ein hail don o gymwysterau a fydd yn dechrau cael eu haddysgu o fis Medi 2026 yw: Dawns, Dylunio a Thechnoleg, Cyfryngau Digidol a Ffilm, Technoleg Ddigidol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Gwyddor Integredig (Gradd Unigol), Addysg Gorfforol ac Iechyd, y Gwyddorau (Dwyradd), a Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol.

Rydym yn ddiolchgar am gymorth parhaus ein rhanddeiliaid drwy gydol y broses o ddatblygu ein cymwysterau newydd. Gyda'n gilydd, rydym yn llunio Cymru fodern, gynhwysol ac amrywiol.



Ysgrifennwyd gan
Delyth Jones

Cyfarwyddwr Cynorthwyol,
Datblygu Cymwysterau
(Cymwysterau Cyffredinol)

Sicrhau cydraddoldeb wrth ddatblygu cymwysterau

Ar ein taith i greu cyfres newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig Gwneud-i-Gymru, rydym yn ymrwymedig i fwy o lawer na dim ond addasu cymwysterau sy'n bodoli eisoes.

Gwnaethom ddechrau proses gynhwysfawr o ailasesu pob pwnc i sicrhau eu bod yn cydweddu'n well â'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd a wnelo hyn â mwy na dim ond eu diweddarau - roedd yn golygu datblygu egwyddorion a chanllawiau sy'n gysylltiedig ag ethos y cwricwlwm newydd ac arferion da wrth asesu, fel y gallwn baratoi dysgwyr yn briodol ar gyfer y dyfodol.

Deall y meini prawf cymeradwyo

O'r dechrau'n deg, roedd deall y meini prawf cymeradwyo manwl ar gyfer pob pwnc yn hanfodol. Chwaraeodd ein Swyddogion Pwnc a'n Swyddogion Datblygu Cymwysterau ran hollbwysig yn y broses hon drwy fod yn aelodau o Weithgorau Lefel Pwnc Cymwysterau Cymru, a drwy hyn, llwyddom i fodloni'r gofynion technegol ynghyd â mynd i'r afael â'r nodau addysgol ehangach sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Galluogodd hyn ni i ganolbwyntio ar y darlun mawr a'r manylion bach sy'n sicrhau profiad addysgol cynhwysfawr.

Defnyddio dull o gyd-awduro

Roedd cyd-awduro yn rhan ganolog o'n dull gweithredu - ymdrech ar y cyd a oedd yn cynnwys set amrywiol o randdeiliaid. Drwy gynnwys athrawon wrth eu gwaith fel awduron ac adolygwyr ar gyfer pob pwnc, rydym wedi llwyddo i ddod i ddeall eu profiadau go iawn yn yr ystafell ddsbarth er mwyn sicrhau bod ein cymwysterau yn ymarferol ac yn berthnasol. Yn yr un modd, mae gan ein Grwpiau Cyngori gynrychiolaeth sylweddol o athrawon o amrywiaeth o ysgolion, gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg. Mae'r grwpiau hyn hefyd yn cynnwys lleisiau o addysg uwch, consortia a chymdeithasau proffesiynol.

Mae'r ymdrech gydwethredol hon wedi cyfoethogi ein cymwysterau, gan sicrhau eu bod yn ddilys ac yn ystyrlon. Rydym wedi cael cysylltiadau cryf â'r proffesiwn addysgu bob amser, ac rydym wedi mynd ati o ddifrif i adeiladu ar y sylfaen honno yma.

Mae'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig, sy'n cefnogi'r cwricwlwm, yn fwy na dim ond cerrig milltir academiaidd - maent yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn flaenorol ac yn sefydlu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, gan alluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu bywydau. Drwy ganolbwyntio ar degwch, cynwysoldeb a dyheadau addysgol eang, rydym yn falch o fod wedi datblygu cymwysterau sy'n berthnasol, yn deg ac yn gefnogol i bob dysgwr.



Canfod ein hegwyddor arwain

Wrth wraidd ein proses o ddatblygu cymwysterau roedd yr angen i sefydlu egwyddor arwain a fyddai'n ein tywys drwy'r gwahanol heriau sy'n cystadlu â'i gilydd, yn enwedig asesiadau di-arholiad. Gwelwyd cynnydd amlwg mewn asesiadau di-arholiad yn y gyfres newydd o gymwysterau, gan gwmpasu pob pwnc heblaw mathemateg a chyfrifiadureg. Mae hyn yn cynnwys ehangu asesiadau di-arholiad mewn pynciau lle roeddent yn bodoli eisoes a'u cyflwyno i bynciau lle nad oeddent wedi'u cynnwys yn flaenorol.

Yn gynnar yn y broses, gwnaethom sefydlu grŵp cynghori cyffredinol yn cynnwys arweinwyr ysgolion a'n hymgyngorydd gwrth-hiliaeth. Gwnaethom hefyd ofyn am gymorth ein Grŵp Cynghori Dysgwyr, a roddodd fewnbwn eithriadol o werthfawr a lywiodd y ffordd y gwnaethom ddatblygu ein cymwysterau. Drwy wrando ar leisiau dysgwyr, gwnaethom sicrhau y byddai ein cymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig newydd yn berthnasol ac yn ddifyr o safbwynt dysgwyr, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol â'u hanghenion a'u dyheadau.

Roedd y grwpiau hyn yn allweddol yn ein helpu i benderfynu mai "tegwch i ddysgwyr" fyddai ein hegwyddor arweiniol ganolog. Daeth tegwch i ddysgwyr yn rhan hanfodol o'n proses ddatblygu, gan sicrhau bod pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, yn cael cyfleoedd teg a chyfartal. Roedd yr egwyddor hon yn arbennig o hanfodol wrth fynd i'r afael â gofynion amrywiol pynciau gwahanol. Galluogodd ni i fynd i'r afael â phryderon am asesu, llwyth gwaith a hyblygrwydd mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i degwch.

Sicrhau cynwysoldeb a chynrychiolaeth

Mae cynwysoldeb wedi bod yn ganolog i'n proses ddatblygu. Mewn partneriaeth â DARPL, gwnaethom integreiddio safbwyntiau amrywiol a gwrth-hiliol o'r cychwyn cyntaf. Roedd yr ymdrech gydweithredol hon yn sicrhau bod ein cymwysterau yn bodloni safonau academaidd trylwyr yn ogystal â dathlu'r amrywiaeth gyfoethog o brofiadau a chefnidiroedd ymhlith dysgwyr ledled Cymru.

Ar y dechrau, gwnaethom gynnwys ymgynghorydd gwrth-hiliol a wnaeth ein tywys drwy'r broses, gan gyfrannu at y gwaith o ddatblygu rhaglen hyfforddiant wedi'i theilwra i bawb sy'n rhan o'r broses o ddatblygu cymwysterau. Roedd eu dirnadaeth a'u cyfranogiad yn ystod ein grŵp rhanddeiliaid yn hanfodol bwysig wrth benderfynu ar destun ac ymdriniaeth, gan sicrhau bod ein cymwysterau'n adlewyrchu ac yn croesawu cynhwysiant yn ddiffuant.

Cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru

Yn y bôn, mae'r cymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig newydd hyn wedi'u cynllunio i gefnogi fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, gan helpu dysgwyr i ddatblygu tuag at y pedwar diben wrth astudio ar gyfer eu cymwysterau.

Mae egwyddorion cynnydd, ynghyd â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol, yn ganolog i'n cynllun. Buom yn chwilio am gyfleoedd i athrawon gynnwys themâu trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol yn eu haddysgu wrth gyflwyno'r cymwysterau er mwyn sicrhau profiadau dysgu ehangach, gan hyrwyddo addysg gyflawn.

Ein Swyddogion Pwnc:

Annog athrawon i lwyddo: cefnogi'r broses o gyflwyno ein cymwysterau Saesneg iaith a Llenyddiaeth Gwneud-i-Gymru newydd

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn cynnig cymorth arbenigol i athrawon a darlithwyr drwy ein tîm o Swyddogion Pwnc.

Yn y darn hwn, rydym yn siarad â Guy Melhuish, ein Swyddog Pwnc Saesneg iaith, sy'n adfyfrio ar ei rôl a'r modd y mae'n cyfrannu at y broses o roi cymwysterau TGAU Saesneg iaith a Llenyddiaeth ar waith yn llwyddiannus.

Beth yw rôl y Swyddog Pwnc?

Fel aelodau hanfodol o dîm CBAC, rydym yn bodloni anghenion ysgolion, colegau, athrawon a darlithwyr drwy ddarparu deunyddiau hanfodol fel negeseuon i atgoffa ynghylch terfynau amser, dadansoddiadau o feini prawf asesu ac adnoddau ychwanegol.



Ysgrifennwyd gan
Guy Melhuish

Swyddog Pwnc
Saesneg iaith

Hefyd, rydym yn cynnig canllawiau a chymorth gwerthfawr i uwch benodedigion, uwch arholwyr, uwch gymedrolwyr a chadeiryddion arholwyr.

Mae ein cyfrifoldebau hefyd yn cwmpasu goruchwyllo agweddau amrywiol ar y pwnc, gan gynnwys datblygu papurau cwestiynau ac adolygiadau ar ôl cael canlyniadau, gan sicrhau uniondeb ac ansawdd asesuadau, wrth sicrhau tegwch a chysondeb i bob dysgwr.

Pa rôl rydych wedi'i chwarae yn datblygu cymwysterau Saesneg iaith a Llenyddiaeth Gwneud-i-Gymru?

Pan nododd Cymwysterau Cymru y byddai'r cymwysterau newydd yn cael eu hintegreiddio, gan gyfuno iaith a llenyddiaeth, gwnaethom ddechrau ar y sgysiau datblygu cychwynnol, gan werthuso'r cymwysterau presennol.

Ar ôl y cam gwerthuso, gwnaethom ddechrau ar broses ymgynghori drylwyr i asesu cryfderau a gwendidau pob cymhwyster. Drwy gydol y cam ymgynghori, roedd rhanddeiliaid yng Nghymru yn chwarae rhan weithredol, gan roi adborth gwerthfawr cyn i'r amlinellau gael eu cadarnhau.

Pa nodweddion o'r cymwysterau Saesneg newydd ydych chi fwyaf brwdfrydig yn eu cylch a sut byddant yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgwyr?

Mae'r cymwysterau Saesneg newydd yn arloesol, yn gyd-destunol ac yn cynnig mwy o ymreolaeth ac addasrwydd i ysgolion a cholegau yng Nghymru. Maent yn golygu y gellir eu haddasu yn seiliedig ar gyd-destunau a lleoliadau unigol.

Er enghraifft, ym mhorthfolio'r Aseidiadau Di-arholiad, maent yn cynnig y cyfle i gynnwys testunau ffuglen sy'n berthnasol yn gyd-destunol, ynghyd â blodeugerddi. Yn yr un modd, gyda barddoniaeth, mae dewis o Shakespeare a thestunau ysgrifennu i sicrhau y ceir dull wedi'i deilwra'n fwy.

Yn ogystal, mae'r dull integredig newydd yn sicrhau y gellir meithrin sgiliau mewn modd mwy naturiol a chydlynus. Caiff dulliau llenyddol ac anllenyddol sy'n seiliedig ar destunau eu hintegreiddio er mwyn meithrin sgiliau ieithyddol a bydd aseidiadau'n profi'r ddwy agwedd yn hytrach na dim ond un.

Nod y datblygiad hwn yw sicrhau bod dysgwyr sy'n gadael addysg yn 16 oed wedi profi rhyddiaith, drama a barddoniaeth.

Gyda'r dull newydd hwn, gwarentir y bydd dysgwyr yn astudio cyfres o destunau, yn meithrin eu sgiliau iaith a llenyddiaeth yr un pryd, ac yn cael eu hasesu arnynt gyda'i gilydd, yn hytrach na'u trin fel endidau ar wahân.

Sut bydd ein hathrawon/darlithwyr yn cael eu cefnogi i baratoi a chyflwyno'r cymwysterau newydd?

Caiff y cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd eu cefnogi gan ddogfen allweddol sef y 'Canllawiau Addysgu' a fydd ar gael o fis Ionawr. A bydd y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, y disgwylir iddynt gael eu rhyddhau ym mis Rhagfyr, yn rhoi cynrychiolaeth werthfawr o'r aseidiadau.

Mae ein 'Canllawiau Addysgu' yn rhoi esboniad cynhwysfawr o'r tasgau a'r briffiau asesu. Mae hefyd yn cynnwys y canfyddiadau a gafwyd gan ysgolion a cholegau a oedd yn cwblhau'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, gan roi ymatebion ymgeiswyr i gyfeirio atynt ar lefelau gwahanol.

Yn ogystal â'r rhain, mae ein Tîm Adnoddau Digidol wrthi'n cydweithio â'n Swyddogion Pwnc i ehangu ymhellach y pecyn cynhwysfawr o adnoddau y gellir eu haddasu sydd AM DDIM sy'n cefnogi'r broses o gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn. Mae'r tîm eisoes wedi dechrau cyhoeddi'r rhain, ac rydym yn disgwyl i'r gyfres lawn fod ar gael erbyn haf 2025.

Yn y gwanwyn, gwnaethom lansio ein cyrsiau Dysgu Proffesiynol a oedd yn cyflwyno deunyddiau yn tynnu sylw at nodweddion allweddol pob cymhwyster newydd a sut y byddant yn cael eu hasesu. Gan ddechrau yr hydref hwn, bydd pecyn cyflawn o gyrsiau hyfforddiant AM DDIM ar gael i athrawon a darlithwyr, gyda chymysgedd o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Caiff y cyrsiau cenedlaethol hyn eu cyflwyno gan ein harbenigwyr manylebau a byddant yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau ymarferol i ysgolion a cholegau wrth iddynt ddechrau paratoi i gyflwyno'r cymwysterau hyn.

Rydym yn falch o'n hymrwymiad i gyflwyno'r cyngor a'r canllawiau gorau i athrawon ac edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi ysgolion a cholegau o fis Awst 2025 a thu hwnt.



Dysgu mwy
cbac.co.uk/YnArbennigIGymru

Effaith drawsnewidiol Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen

Mewn byd addysg sy'n datblygu'n barhaus, mae Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen wedi chwarae rhan ganolog wrth lunio dyfodol dysgwyr ifanc yng Nghymru.

Cafodd y cymhwyster ei gyflwyno yn 2003 ar gyfer dysgwyr ôl-16, ei lansio yn 2008 ar gyfer dysgwyr cyn-16 a'i ddiwygio yn 2015, ac mae wedi dod yn gonglfaen mewn addysg, gyda dros 260,000 o geisiadau ers ei lansio.

Yn yr erthygl ganlynol, mae Sara Davies, Swyddog Pwnc ar gyfer Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen, sydd wedi bod yn gweithio ar y cymhwyster ers 2008, yn adyfyrio ar ei lwyddiant ac ar ddyfodol Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.



Ysgrifennwyd gan
Sara Davies

Swyddog Pwnc
Bagloriaeth Cymru
Cenedlaethol/Sylfaen

Yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen a chymwysterau ategol, mae Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen yn sefyll allan fel rhaglen gynhwysfawr sydd wedi'i chynllunio i baratoi dysgwyr ar gyfer heriau'r byd modern.

Mae'r pwyslais bwriadol ar sgiliau trosglwyddadwy, fel gwaith tîm, cyfathrebu, meddwl yn feiriadol a datrys problemau, yn gydnabyddiaeth o'u pwysigrwydd cynyddol yn y farchnad swyddi heddiw.

Yr hyn sy'n gosod y cymhwyster hwn ar wahân yw ei ymrwymiad i feithrin unigolion hyddysg, sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu mewn amgylcheddau amrywiol.

Mae'r heriau sydd wedi'u hintegreiddio i elfen Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn cyflwyno dysgwyr yn fwriadol i sefyllfaoedd go iawn.

Mae'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn archwilio byd gwaith, mae'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn mynd i'r afael â materion byd-eang, ac mae'r Her y Gymuned yn canolbwyntio ar wella cymunedau lleol - strategaeth fwriadol gyda'r nod o gynhyrchu unigolion yn barod ar gyfer cymhlethdodau'r byd go iawn.





Mae ein hamrediad o bartneriaethau yn adlewyrchu hyblygrwydd y cymhwyster wrth fynd i'r afael â themâu heddiw. O faterion amgylcheddol ac ecolegol i themâu cymdeithasol ac eiriolaeth, yn annog dysgwyr i gyfrannu at newid cymdeithasol cadarnhaol.

Mae ymrwymiad y cymhwyster i fynd i'r afael â heriau cyfoes yn arbennig o amlwg yn y cydweithio ers 2015 â'r project Cymru'n Cyddynnu, gan fynd i'r afael ag eithafiaeth yn benodol.

Mae'r fenter hon wedi cyrraedd 27,000 o ddysgwyr yn ystod y cyfnod hwn, gan danlinellu safiad rhagweithiol y cymhwyster wrth fynd i'r afael â materion o bwysigrwydd cymdeithasol gyda difrifoldeb a dyfnder sy'n mynd y tu hwnt i bynciau academaidd traddodiadol.

Trwy groesawu'r cydweithrediadau hyn, mae'r cymhwyster yn paratoi dysgwyr ar gyfer cymhlethdodau'r byd go iawn ac yn meithrin cenhedlaeth o arweinwyr hyddysg a chymdeithasol ymwybodol.

Mae datblygu, cymhwyso ac asesu set amrywiol o sgiliau yn rhan annatod o'r broses hon, gan arfogi dysgwyr â'r galluedd ymarferol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn effeithiol a chyfrannu'n ystyrlon at gymdeithas.

Gan ychwanegu at lwyddiant Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen, cyflwynwyd y cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru diwygiedig ym mis Medi 2023. Gall dysgwyr ymgymryd â'r cwrs uwch yn annibynnol neu fel dilyniant o'r cwrs Cenedlaethol/Sylfaen.

Mewn byd sydd wedi gweld newid digynsail, mae Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn cydnabod anghenion datblygol dysgwyr. Mae'r cwrs yn paratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol drwy ddatblygu sgiliau mewn cynllunio a threfnu, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, creadigrwydd ac arloesedd, ac effeithiolrwydd personol. Mae 'Sgiliau Cyfannol' yn cyd-fynd yn agos â chanfyddiadau adroddiad ymchwil Nesta, Asiantaeth Arloesedd y DU, "The Future of Skills: Employment in 2030". Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd ymwybyddiaeth gymdeithasol, cydweithio, gwreiddioldeb, gosod nodau a gallu i addasu.

Wrth i ni hyrwyddo llwyddiant Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen, rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld effaith barhaus Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch. Mae'r cymhwysterau hyn yn dangos ymrwymiad Cymru i feithrin cenhedlaeth o ddysgwyr sy'n meddu ar wybodaeth pwnc-benodol ynghyd â'r sgiliau cyfannol sydd eu hangen i ffynnu mewn byd sy'n newid yn barhaus.

Rydym yn ymfalchïo yn y cyfleoedd y mae'r cymhwyster wedi'u cynnig i ddysgwyr, gan feithrin cydweithrediadau ag amrywiaeth eang o sefydliadau blaenllaw:

- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
- Dŵr Cymru
- Network Rail
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cymdeithas Plant Byddar Cymru
- Into Film Cymru
- Noah's Ark
- Dogs Trust
- Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth
- Undeb Rygbi Cymru
- Teenage Cancer Trust
- Cymdeithas Alzheimer
- Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Abertawe
- Project Cymru'n Cyddynnu.

ADRAN03

Llunio Dyfodol Addysg yng Nghymru





Ysgrifennwyd gan
Sarah Harris

Cyfarwyddwr Cynorthwyol
(Cymwysterau Galwedigaethol)

Helpu dysgwyr i ganfod eu dyfodol

Mae Rhaglen Dyfodol CBAC yn fwy na dim ond enw – mae'n gyfres o gymwysterau sy'n ymroddedig i ateb gofynion heddiw, ac i fynd i'r afael ag anghenion yfory o ran yr economi a chymdeithas, sy'n newid o hyd.

Yn CBAC, rydym yn ystyried ein bod yn fwy na chorff dyfarnu. Rydym yn gweld ein hunain yn rhan o'r dirwedd addysgol yng Nghymru. Yn y bôn, mae ein penderfyniadau o ran pa gymwysterau i'w cynnig yn seiliedig ar weledigaeth strategol, gyda'r nod o nodi bylchau nad yw cymwysterau eraill yn eu cwmpasu o bosibl a mynd i'r afael â nhw.

Mae Dyfodol CBAC yn cynnwys amrywiaeth o gymwysterau, gan gynnwys:

Lled-ddargludyddion

Mae Cymru wedi dod yn ganolfan arwyddocaol i'r diwydiant lled-ddargludyddion, ac mae ein cymwysterau arloesol ar led-ddargludyddion yn cynnig cyfle i ddysgwyr gamu i'r sector hwn sy'n tyfu.

Drwy gydweithio â chyflogwyr a sefydliadau addysgol, rydym wedi creu cymwysterau cynhwysfawr gyda'r nod o gau'r bwlch sgiliau lled-ddargludyddion yng Nghymru. Bydd dysgwyr yn cael gwybodaeth am gwmnïau lled-ddargludyddion blaenllaw, llwybrau gyrfa posibl a chyfleoedd twf.

Ar ôl eu cwblhau, bydd y cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i chwarae rôl hanfodol yn datblygu'r diwydiant hollbwysig hwn drwy gynnig gyrfaedd iddynt fel technegwyr lled-ddargludyddion neu ddatblygu addysg drwy brentisiaethau gradd.

Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae ein cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cefnogi dysgwyr sy'n camu i'r gweithlu, gan gwmpasu cymwyseddau hanfodol fel rhifedd, cyfathrebu, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd. Mae'r cymwysterau hyn yn meithrin sgiliau sylfaenol ac yn dangos perthnasedd yn y byd go iawn.

Gan ganolbwyntio ar allu i addasu a pherthnasedd, mae Sgiliau Hanfodol Cymru yn grymuso dysgwyr i wneud eu ffordd drwy amgylcheddau gwaith modern yn llawn hyder, gan feithrin sgiliau dysgu gydol oes.

Yr hyn sy'n gwneud ein cymwysterau yn unigryw yw'r cymorth gwerthfawr gan Arbenigwyr Pwnc sy'n cynnig arbenigedd uniongyrchol a chanllawiau yn seiliedig ar eu profiad o gyflwyno'r cymwysterau hyn mewn colegau lleol.

Cynaliadwyedd

Mewn oes o ymwybyddiaeth amgylcheddol, mae ein cymwysterau ar gynaliadwyedd, a ddatblygwyd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yn rhoi sgiliau i ddysgwyr ar gyfer swyddi 'sero net' y dyfodol.

Mae'r gyfres arloesol hon yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gan ganolbwyntio ar reoli projectau, rheoli newid a dulliau cynllunio, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau i ysgogi newid ystyrlon.

Mae'r cymwysterau hyn yn cwmpasu lefel mynediad i lefel 2, gyda chynlluniau ar gyfer lefelau 3 a 4, ac maent yn gam sylweddol tuag at ddyfodol llawn ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Llwybrau at Gyflogaeth

Mae ein cymwysterau Llwybrau at Gyflogaeth yn pontio'r bwloch rhwng addysg a chyflogaeth, gan gynnig fframwaith cynhwysfawr ar gyfer hyfforddiant cyn prentisiaeth.

Mae'r gyfres hon yn cynnwys cymwysterau hyblyg y gellir eu cyflwyno'n unigol neu gyda'i gilydd. Mae unedau yn cwmpasu sgiliau hanfodol fel ysgrifennu CV, cyfweiliadau am swyddi a gwneud cyflwyniadau, gan baratoi dysgwyr i wynebu'r farchnad swyddi gystadleuol yn llawn hyder. Mae unedau eraill yn canolbwyntio ar ddatblygiad a llesiant personol, gan feithrin unigolion cydnerth sy'n barod i wynebu heriau yn y gweithle.

Drwy gydweithio ag ACT, darparwr hyfforddiant mwyaf Cymru, rydym yn sicrhau bod y cymwysterau hyn yn cydweddu ag anghenion diwydiant, gan wella cyflogadwyedd dysgwyr a'u rhagolygon gyrfa yn sylweddol.

Yr hyn sy'n ein gwneud yn unigryw fel corff dyfarnu yw ein hymrwymiad i arloesedd ac ymrwymiad i gefnogi dysgwyr ac ysgolion a cholegau. Mae ein rôl yn mynd y tu hwnt i asesu i ddarparu adnoddau wedi'u teilwra ac opsiynau cofrestru hyblyg, gan hwyluso profiadau addysgu a dysgu effeithiol.

Mae ein proses o ddatblygu cymwysterau yn gydweithredol ac yn gynhwysol, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr a rhanddeiliaid i sicrhau perthnasedd a hygyrchedd. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i'r gallu i addasu, gan alluogi ysgolion a cholegau a dysgwyr i ddewis dulliau asesu sy'n addas i'w hanghenion.

Rydym yn ymrwymedig i ddysgu gydol oes a grymuso dysgwyr o bob oedran. Drwy ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid a chael y wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau newydd, byddwn yn helpu i lywio dyfodol addysg yng Nghymru a thu hwnt. Mae ein hymgyrch Dyfodol yn grymuso dysgwyr i fachu ar gyfleoedd a thorri eu cwys eu hunain at lwyddiant, ac edrychwn ymlaen at ehangu'r gyfres hon ymhellach.



Mae hwn yn gam cadarnhaol a chyffrous ymlaen i'r Cwricwlwm newydd i Gymru, lle mae gan bawb y cyfle i ddysgu am ddeddfwriaeth unigryw ac arloesol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a lle gallan nhw chwarae rhan yn y gwaith o adeiladu dyfodol gwell mewn 5, 25, 100 mlynedd.

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru

Dathlu cynwysoldeb:

Dramâu Cymraeg i bob cynulleidfa

Yn CBAC, rydym yn croesawu dwyieithrwydd ein gwlad. Mae'r iaith Gymraeg yn fwy na dim ond elfen allweddol o'n sefydliad; mae'n rhan hanfodol o'n gwaith. Mae'n cwmpasu popeth a gyflwynir gennym, ac rydym yn ymrwymedig i gadw'r rhan hon o'n hunaniaeth.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, y flwyddyn hon gwnaethom gomisiynu cyfieithiadau Cymraeg newydd o ddramâu clasurol a modern i gefnogi ein manyleb UG Drama a Theatr. Ynghyd â chyfoethogi ein cwricwlwm, mae'r fenter hon hefyd yn cyfrannu at y byd theatr Cymraeg bywiog.

Er mwyn cyfoethogi profiad diwylliannol ein dysgwyr, rydym hefyd wedi gwella ein darpariaeth o gyfieithiadau Saesneg o ddramâu Cymraeg. Drwy wneud hyn, ein nod yw rhannu'r cyfoeth o ddramâu Cymraeg â dysgwyr cyfrwng Saesneg, gan eu galluogi i werthfawrogi ac ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol Cymru ar lefel ddyfnach.

Mae'r dramâu yn cwmpasu amrywiaeth eang o themâu cynhwysol a chyfoes, gan gynnwys mewnfudo a threftadaeth / hunaniaeth, derbynioldeb rhywiol, dadboblogi gwledig, rôl menywod mewn cymdeithas, ac ewthanasia. Mae'r dramâu yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella cynwysoldeb, amrywiaeth a chynrychiolaeth yn ein testunau.



Gwnaethom gysylltu â rhestr o'r awduron Cymraeg gorau a gyflwynodd gyfieithiadau o'r radd flaenaf: Manon Steffan Ros (enillydd Medal Carnegie am Ysgrifennu i Blant), Caryl Parry Jones (cantores/cyfansoddwr caneuon ac awdur sgriptiau), Ffion Dafis (Enillydd Gwobr Llyfr Cymraeg y Flwyddyn ac actores/cyfarwyddwr/cyflwynydd teledu), Betsan Llwyd (actor/cyfarwyddwr), a Nia Morais (Bardd Plant Cymru yn y Gymraeg ar hyn o bryd). Mae un o addasiadau clasurol y diweddar ddramodydd toreithiog Wil Sam hefyd wedi'i atgyfodi, ynghyd ag addasiad yr Athro Mererid Hopwood, yr Archdderwydd presennol o'r Almaeneg o un o ddramâu Bertolt Brecht.



Mae CBAC wedi croesawu themâu cynhwysol yn y dramâu newydd a ddewiswyd ar gyfer ei fanyleb UG Drama a Theatr, gan alluogi'r dysgwyr i astudio deunydd a fydd wir yn taro tant.



Mari Watkin
Rheolwr Project a Golygydd

Cyflwyno cyfieithiad unigryw

O blith y casgliad o destunau newydd, un ychwanegiad nodedig yw cyfieithiad Nia Morais o ddrama Winsome Pinnock a gafodd ganmoliaeth gan y beirniaid, *Leave Taking*, sy'n agor drysau newydd i theatr yng Nghymru.

Mae ein cyfieithiad arloesol yn ymgorffori cyfuniad o'r Gymraeg a thafodiaith Saesneg Caribïaidd i alluogi dysgwyr iaith Gymraeg i ymgolli'n llwyr yn y ddrama. Dim ond drwy gydweithio ag arbenigwyr llenyddol diwylliannol a hyrwyddwyr amrywiaeth y gellid cyflawni hi.

Y ddrama

Mae drama Pinnock yn archwilio hunaniaeth mewnfudwyr Prydeinig du. Mae'r stori yn dilyn dwy chwaer a'u mam wrth iddynt ymdrechu i fyw mewn Prydain gyfoes anodd. Mae'r ddrama yn trin materion fel hunaniaeth a chanlyniadau gadael eich mamwlad a chael eich dal rhwng dau ddiwylliant.

Comisiynu cyfieithydd sensitif yn ddiwylliannol

Gwnaethom ymrwmo i gomisiynu awdur-gyfieithydd gyda chefnidir diwylliannol priodol a fyddai'n parchu treftadaeth y ddrama. Yn dilyn gwaith ymchwil eang o fyd y theatr, penodwyd Nia Morais.

Mae'r cyfieithiad o'r ddrama yn cynnwys cymysgedd o destun gwreiddiol, gan gadw'r dafodiaith Saesneg Caribïaidd ar gyfer rolau'r mewnfudwyr gwreiddiol, sy'n cydblethu â chyfieithiad Cymraeg ar gyfer rolau'r genhedlaeth iau, gan gynnig profiad ymdrochol ar gyfer yr actorion a'r cynulleidfaoedd fel ei gilydd.

Gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr llenyddol a diwylliannol

Bu ein Tîm Golygyddol yn gweithio gyda sawl arbenigwr allanol i sicrhau bod y cyfieithiad yn parchu'r deunydd gwreiddiol a bod cyfieithiad priodol yn cael ei gyflwyno lle byddai'r ystyr a'r ymdeimlad yn cael eu cadw.

Bu'r tîm yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o arbenigwyr gan gynnwys Arwel Gruffydd (cyn Gyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru) a Dafydd Llewelyn (Cynhyrchydd a Dramodydd teledu toreithiog), a oedd yn cytuno y byddai hwn yn gyfieithiad arloesol o safbwynt theatrig. Gwnaethant hefyd ymchwilio i ddulliau ieithyddol o gyfieithu gyda sawl cyfrannwr gan gynnwys Wayne Howard (Cyfrannwr S4C) a Jalisa Andrews (Actor).

Bu'r tîm hefyd yn gweithio gyda DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth) a gynhaliodd ymgynghoriad cyffredinol i'w dull cyfieithu, gan sicrhau ei fod yn briodol yn ddiwylliannol. Drwy'r gwaith hwn, cyfarfu'r tîm â Roma Taylor, un o drigolion Caerdydd o genhedlaeth Windrush a'i merch Suzanna Smart, a helpodd i sicrhau y byddai'r cyfieithiad yn taro tant ymysg cynulleidfa iaith Gymraeg, gan gadw'n driw i ymdeimlad y ddrama.

Roedd yn bleser gweithio ar ddrama sy'n rhoi goleuni ar brofiadau a chyfraniad mewnfudwyr du yn y DU.

Mae 'Leave Taking'/'Ymadael' yn tynnu sylw at ran bwysig o hanes Prydain. Hoffwn ddiolch i CBAC am y cyfle i ysgrifennu'r addasiad Cymraeg hwn.



Nia Morais
Prif Gyfieithydd
'Leave Taking'

Wedi'u teilwra i sicrhau llwyddiant

Adnoddau y gellir eu haddasu i wella'r broses o gyflwyno cymwysterau Gwneud-i-Gymru

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru ac Adnodd, rydym yn arwain y broses o greu adnoddau addysgu a dysgu newydd i gefnogi ein cymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig newydd.

Melanie Blount, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ein tîm Adnoddau Digidol, sy'n arwain y fenter unigryw a chyffrous hon, gan drawsnewid y defnydd o'n hadnoddau ar gyfer ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd.

Gyda'i thîm o 26 o arbenigwyr, maent yn datblygu cyfres o adnoddau y gellir eu haddasu i gefnogi athrawon a darlithwyr i gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn. Mae'r erthygl hon yn ehangu ar y datblygiadau newydd hyn a'u heffaith gadarnhaol ar addysgwyr a dysgwyr.

Ar ôl i Gymwysterau Cymru gyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau newydd, bu ein tîm Adnoddau Digidol yn gweithio'n gyflym i ddeall y cymorth sy'n ofynnol gan ysgolion a cholegau ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau newydd hyn, drwy arolygon a grwpiau ffocws. Defnyddiodd y tîm y wybodaeth hon a chydweithio â'n Swyddogion pwnc i gynllunio a chreu pecyn newydd o adnoddau y gellir eu haddasu sydd AM DDIM.

Bydd y gyfres lawn ar gael rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2025, gyda 130 o becynnau newydd ar draws y don gyntaf o gymwysterau a gaiff eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2025. Bydd yr adnoddau hyn yn werthfawr i addysgwyr, gan wella'r profiad dysgu a hwyluso gwersi difyr.



Ysgrifennwyd gan
Melanie Bount

Cyfarwyddwr Cynorthwyol
 Adnoddau Addysgol

Bydd yr adnoddau newydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion newydd cyffrous, gan gynnwys:

Gellir eu haddasu i sicrhau profiad ystyrlon a her addas i ddysgwyr:

Mae ein cynnwys Dysgu Cyfunol Gwneud-i-Gymru wedi'i gynllunio gyda'r cysyniad o Cynefin[†] mewn golwg. Gellir eu golygu'n rhwydd a'u lleoleiddio i gydweddu â chyd-destun dysgu unigryw pob canolfan, gan sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr. Ymhellach, p'un a oes angen rhagor o gymorth neu her, gellir addasu'r adnoddau hyn yn briodol er mwyn bodloni anghenion amrywiol pob ystafell ddosbarth.

Gellir eu cadw:

Bydd gan addysgwyr bellach fynediad i dudalen adnoddau ar-lein bersonol lle gallant gael gafael ar adnoddau y maent wedi'u hoffi, eu golygu neu eu cadw. Mae'r dangosfwrdd hwn sy'n hawdd ei ddefnyddio yn golygu y gellir defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan deilwra'r addysgu i bob dysgwr a chreu amgylchedd dynamig a difyr ar gyfer dysgu wedi'i bersonoli.

Gellir eu rhannu'n rhwydd:

Bydd gan bob adnodd wedi'i deilwra URL unigryw yn hwyluso'r broses o rannu a dysgu o gartref. Drwy gynnig y swyddogaethau unigryw a newydd hyn, bydd ein hadnoddau Gwneud-i-Gymru yn cynnig y cyfle i athrawon a darlithwyr greu profiadau dysgu personol, difyr a chynhwysol, gan sicrhau bod y lefel briodol o gymorth yn cael ei chynnig.

[†] Y lle y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, mae'r bobl a'r tirwedd yno'n rhywbeth cyfarwydd i ni, ac mae'r hyn rydym yn ei weld a'i glywed yn ein cofleidio wrth i ni eu hadnabod. Llywodraeth Cymru 2020

Hyfforddiant ac arweiniad – hwyluso proses esmwyth o drosglwyddo i'n cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd

Er mwyn cefnogi athrawon a darlithwyr yn ystod y broses bontio i'r cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd, byddwn yn darparu fideos cyfarwyddol i'w tywys drwy nodweddion yr adnoddau gwell. Bydd y fideos hyn yn gweithredu fel dulliau gwerthfawr i addysgwyr sy'n ceisio gwella potensial yr adnoddau newydd.

Hefyd, byddwn yn cynnal clinigau galw heibio ar-lein i gynnig cymorth parhaus ac i ateb unrhyw gwestiynau y gall fod gan athrawon a darlithwyr. Bydd y sesiynau rhyngweithiol hyn yn rhoi cymorth amser real ac yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir wrth roi'r adnoddau newydd ar waith.

Gwefan well – gallwch ddod o hyd i'ch adnoddau yn gynt

Rydym yn cydnabod y cyfyngiadau amser a wynebir gan athrawon a darlithwyr, felly, rydym wedi gwella ein gwefan Adnoddau Digidol i'w gwneud hi'n haws i addysgwyr ddod o hyd i'r deunyddiau angenrheidiol yn gyflym.

Dyma rai o nodweddion allweddol y wefan ddiwygiedig

Rhoi trefn ar adnoddau yn ôl lefel, math ac uned

Bydd yr holl gynnwys bellach wedi'i gatgoreiddio yn ôl lefel, math ac uned. Bydd hyn yn galluogi athrawon/darlithwyr i ddod o hyd i adnoddau penodol wedi'u mapio i'r manylebau newydd yn rhwydd.

Cymorth clir â'r manylebau

Bydd y wefan yn gwahaniaethu'n glir rhwng cynnwys sy'n cefnogi'r manylebau Gwneud-i-Gymru newydd a manylebau blaenorol, gan sicrhau eu bod yn cael gafael ar yr adnoddau priodol.

Integreiddio gyda manylion mewngofnodi Hwb

Ar y cyd â thîm Hwb (Llywodraeth Cymru), rydym wedi integreiddio manylion mewngofnodi Hwb, gan alluogi athrawon a darlithwyr i gael gafael ar nodweddion newydd yn rhwydd ar ein safle Adnoddau Digidol.

Dangosfyrddau y gellir eu haddasu

Mae gan athrawon a darlithwyr bellach yr hyblygrwydd i addasu eu dangosfwrdd CBAC, gan eu galluogi i gadw eu hoff adnoddau er mwyn sicrhau y gallant gael gafael arnynt yn rhwydd pan fyddant yn mewngofnodi.

Yn ogystal â'n darpariaeth adnoddau presennol, mae Adnodd wedi sicrhau cyllid drwy Lywodraeth Cymru, a fydd yn eu galluogi i gynnig mwy o adnoddau hygyrch o ansawdd uchel a fydd yn ategu ein pecyn newydd. Bydd yr adnoddau newydd hyn yn helpu addysgwyr i gyflwyno'r cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd yn llawn hyder.

I ddysgu mwy am yr adnoddau hyn, ewch i cbac.co.uk/Adnoddau

Mae ein gwefan Adnoddau Digidol wedi cael ei haildylunio i gefnogi athrawon, darlithwyr a dysgwyr yn well wrth gyflwyno'r cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd. Bydd y safle yn cynnig nodweddion hidlo a mapio gwell, ynghyd â rhyngwyneb hawdd i'w ddefnyddio sy'n galluogi athrawon/darlithwyr i deilwra adnoddau i fodloni anghenion eu dysgwyr.

Scott Hazel
Rheolwr Datblygu Cynnyrch



Cyfoethogi hyder athrawon ag arbenigedd Gwneud-i-Gymru

Mae ein tîm Dysgu Proffesiynol, dan arweiniad **Nia Jones** Pennaeth Dysgu Proffesiynol, wedi llunio amserlen newydd o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol AM DDIM, wedi'u cynllunio i gefnogi'r broses o gyflwyno cymwysterau Gwneud-i-Gymru. Caiff y cyrsiau cenedlaethol hyn eu cyflwyno gan ein Cyngorwyr Pwnc a'n harbenigwyr manylebau ar gyfer y don gyntaf o gymwysterau, a fydd yn cael eu haddysgu o fis Medi 2025.

Darllenwch ymlaen i ddysgu mwy am y cyfleoedd gwerthfawr hyn i helpu athrawon a darlithwyr i gyflwyno ein cymwysterau newydd yn llawn hyder.

Bodloni anghenion ysgolion ac athrawon

Yn ystod y cam cynllunio cychwynnol, gwnaethom gynnal arolwg cynhwysfawr i athrawon a ddatgelodd yr angen am Ddysgu Proffesiynol ar-alw ac ar-lein, ac o leiaf un cyfle am ddigwyddiad diwrnod llawn wyneb yn wyneb a fyddai'n galluogi athrawon i rwydweithio â'n harbenigwyr manylebau a chydweithio ag athrawon pwnc eraill. Yn seiliedig ar yr adborth hwn, rydym wedi llunio amserlen o ddigwyddiadau a gaiff eu cyflwyno drwy gyfuniad o gyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Digwyddiadau wyneb yn wyneb sy'n hygyrch i bawb

Gan gydweithio â Phenaeithiaid, Awdurdodau Lleol, Consortia Rhanbarthol, CYDAG a Llywodraeth Cymru, rydym wedi lansio cyfres genedlaethol o ddiwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol yn nhymor y gwanwyn. Mae'r digwyddiadau hyn a gynhelir ledled Cymru yn hygyrch ac ar gael i bob athro pwnc yng Nghymru. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â phenaeithiaid yn y 22 o Awdurdodau Lleol i drefnu sesiynau yn eu lleoliadau ysgol. Bydd y cydweithio hwn yn sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n amrywiol yn ddaearyddol ac yn gost-effeithiol i athrawon a bydd pob diwrnod HMS yn cynnig 16 o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol pwnc-benodol, gan gefnogi athrawon yn y cyfnod cyn dechrau cyflwyno'r cymwysterau Gwneud-i-Gymru newydd.



Rydym yn falch o gynnig pecyn pwrpasol a chynhwysfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar-lein ac wyneb yn wyneb i athrawon ledled Cymru, a fydd yn eu galluogi i gyflwyno ein cymwysterau newydd yn hyderus.



Nia Jones
Pennaeth Dysgu Proffesiynol



Ein Hamserlen Dysgu Proffesiynol ehangach

Mae ein hamserlen o nodweddion cymorth Dysgu Proffesiynol yn cynnwys cymysgedd o hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb yn y cyfnod cyn dechrau addysgu'r cymwysterau newydd.

Hydref/Gaeaf 2024

Modiwlau arweiniad i fanylebau ar-alw i helpu athrawon a darlithwyr i ddeall y fanyleb.

Sesiwn fyw Holi ac Ateb a Briffio Cymwysterau ar-lein: i gefnogi athrawon a darlithwyr i ddeall y cymhwyster newydd, ei gynnwys a'r strwythur asesu gyda chyfleoedd i gael eglurhad

Gwanwyn 2025

Digwyddiadau "Paratoi i Addysgu" wyneb yn wyneb ledled Cymru: i gefnogi athrawon a darlithwyr i gyflwyno eu manyleb newydd.

Haf 2025

Arweiniad i Arholiadau/Arweiniad i Asesiadau Di-arholiad ar-alw: i gefnogi dysgwyr i ddeall strwythur papurau cwestiynau/briffiau asesiadau di-arholiad, mathau o gwestiynau, amcanion asesu a dulliau marcio.

Hefyd, byddwn yn cyhoeddi Taflenni Nosweithiau Rhieni / Dewisiadau i gefnogi athrawon a darlithwyr i roi gwybodaeth berthnasol i rieni a dysgwyr.

Am ragor o wybodaeth am sut a phryd i gael gafael ar ein cymorth Dysgu Proffesiynol, ewch i: cbac.co.uk/DysguProffesiynol

ADRAN 04

Gweithio gyda'n
gilydd i wneud
gwahaniaeth



Gwrando ar benaethiaid, athrawon, darlithwyr a dysgwyr:

Ymweld â'n hysgolion a'n colegau i gyfoethogi a gwella ein cydberthnasau

Yn CBAC, rydym yn gwerthfawrogi deialog agored ac yn gwrando'n astud ar ein partneriaid addysgol. Drwy sgysiau â phenaethiaid, athrawon, darlithwyr a dysgwyr, rydym yn dysgu am yr heriau presennol a wynebir gan ysgolion a cholegau ledled Cymru.

Mae'r ddealltwriaeth hon yn ein galluogi i roi cymorth wedi'i dargedu. Mae'r cydweithrediad parhaus hwn yn canolbwyntio ar nod a rennir: datblygu cymwysterau ac asesiadau sy'n hygyrch, yn ysbrydoledig ac yn gynhwysol i bob dysgwr.

Eleni, gwnaethom ymweld â sawl ysgol a choleg ledled Cymru, gan gynnwys: Coleg Catholig Dewi Sant a Choleg Sant Ioan yng Nghaerdydd, Ysgol Gyfun Basaleg yng Nghasnewydd, Coleg y Cymoedd yn Aberdâr, Ysgol Uwchradd WRh Hwlfordd yn Sir Benfro ac Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ym Maesteg.




Gyda'r gwaith i ddatblygu ein cymwysterau newydd, daw'r angen i gefnogi ein hysgolion a'n colegau fwy nag erioed.

Gyda'r datblygiadau diweddaraf a newidiadau pwysig i'r cwricwlwm, mae cynnal cysylltiadau cryf â sefydliadau addysgol yn fwy hanfodol nag erioed i sicrhau eu bod yn hyddysg ac yn barod.

“ Mae CBAC yn nodedig am ei ymrwymiad i ymgysylltu â darparwyr addysgol yng Nghymru. Roedd ymweliad personol y Prif Weithredwr â Choleg Catholig Dewi Sant, i gael mewnbwn gan ddysgwyr, athrawon a rheolwyr, yn eithriadol a chafodd groeso cynnes. Mae'r dull hwn yn dangos ymroddiad CBAC i ddeialog agored a gwelliant gwirioneddol i addysg yng Nghymru. ”

Mark Leighfield
Pennaeth Coleg Dewi Sant, Caerdydd



Buddsoddi yn ein Mathemategwyr: Cyhoeddi derbynwyr Bwrsari Gareth Pierce eleni

Lansiwyd Bwrsari Gareth Pierce yn 2022 er cof am ein diweddar Brif Weithredwr. Mae'n cefnogi dysgwyr israddedig sydd am astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy roi bwrsari o £3,000 yr un i bob derbynnydd tuag at eu hastudiaethau.

Mae ein bwrsari yn adlewyrchu angerdd enfawr Gareth tuag at fathemateg ac ystadegau, a'i eiriolaeth dros ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bob blwyddyn, mae Bwrsari Gareth Pierce yn parhau i dyfu o ran ei boblogrwydd, ac rydym yn falch o gyhoeddi ein tri derbynnydd diweddaraf: Efa Maher, Steffan Môn, y ddau yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac Elan Davies, myfyriwr israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gobeithio y bydd y bwrsari hwn o gymorth pellach i'r derbynnyddion ar eu taith ddysgu ac edrychwn ymlaen at weld ble y bydd mathemateg yn mynd â nhw.

Find out more at:

cbac.co.uk/BwrsariGarethPierce

“Mae astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn hynod bwysig i mi, nid yn unig o ran amddiffyn a chynnal fy sgiliau ieithyddol, ond hefyd o ran fy hunaniaeth. Mae Mathemateg fel pwnc yn cynnig posibiliadau helaeth o ran gyrfa, felly bydd meithrin terminoleg yn y ddwy iaith yn ddefnyddiol pan fyddaf yn gweithio yn y maes yn y dyfodol. Rwy'n ddiolchgar iawn i CBAC am y bwrsari hwn.”

Efa Maher
Buddiolwr Cynllun Bwrsari

ADRAN 05

Dathlu'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr



Alys Jones
Ysgol Gymraeg Bro
Edern

Gwobrau Arloesedd:

Arddangos talent Cymru a dyluniadau arloesol



Lansiwyd y Gwobrau Arloesedd yn 1997 ac mae'n ddigwyddiad blynyddol pwysig sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o dynnu sylw at arloesedd a dawn dysgwyr yng Nghymru a'u dathlu.

Cyflwynir y gwobrau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac maent yn ennyn diddordeb gan ysgolion a cholegau ledled Cymru. Maent yn llwyfan i ddysgwyr sydd ag angerdd i ddylunio archwilio eu creadigrwydd, cynrychioli eu hysgol/coleg ac arddangos eu gwaith i banel o arbenigwyr.

Roedd y digwyddiad hefyd yn deyrnged addas i etifeddiaeth dyfeiswyr Cymru, gan gydnabod eu cyfraniadau, gan gynnwys creu dyfeisiau arloesol megis y microffon modern, anadlieddydd electronig, pelydrau X, a thechnoleg radar.

Arwain y ffordd i ddyfodol arloesol

Mae'r Gwobrau Arloesedd yn gyfle gwych i ddysgwyr sy'n astudio Dylunio a Thechnoleg ar lefel TGAU, UG a Safon Uwch arddangos eu dyluniadau ysbrydoledig ac esblygol.

Mae ein timau yn edrych ymlaen at y digwyddiad blynyddol hwn, sy'n arddangos y cyfoeth o ddoniau sydd gennym yma yng Nghymru. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar am y cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru sy'n ein galluogi i gydnabod creadigrwydd dysgwyr ac sy'n ysbrydoli eraill i ystyried gyrfaoedd ym maes dylunio ac arloesedd.

Fel y nodir yn ein strategaeth arloesedd, Cymru'n Arloesi, rydym yn credu ei bod yn hanfodol meithrin diwylliant o arloesedd. Mae'n helpu i ysgogi pobl ifanc i symud ymlaen i brentisiaethau a gyrfaoedd crefftus o ansawdd uchel, felly rwy'n falch ein bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth â CBAC i gynnal Gwobrau Arloesedd Cymru.

Vaughan Gething
Cyn Weinidog yr Economi

Ein 24ain Seremoni Gwobrau Arloesedd

Dychwelodd y 24ain Seremoni Gwobrau Arloesedd i Fae Caerdydd ym mis Rhagfyr 2023, lle'r oedd ymgeiswyr wedi dod o gyn belled â Dinbych a Chonwy, i arddangos eu dyluniadau.

Dros y blynyddoedd, mae'r Gwobrau Arloesedd wedi cyflwyno amrywiaeth ysbrydoledig i ni o ddyfeisiau a syniadau gwych. Roedd 2023 yn arbennig o ysbrydoledig gan ein bod wedi cael dyfeisiau gan amrywiaeth eang o ddyluniadau, yn archwilio datrysiadau creadigol i dasgau cymhleth o ddydd i ddydd a dulliau chwyldroadol i'w defnyddio gan bawb.

Roedd yr amrywiaeth o ddyfeisiau cynhwysol yn amrywio o becyn cymorth i bobl â chlefyd Parkinson, cloch drws adborth haptig i bobl â cholled clyw a bwrdd torri wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer pobl â phroblemau symudedd. Roedd yn galonogol gweld ein dysgwyr yn ystyried anghenion eraill ac am wneud newid arwyddocaol drwy eu dyluniadau.

Ynghyd â'r cynigion hyn, cyflwynodd y dysgwyr hefyd amrywiaeth drawiadol o ddyluniadau yn tynnu sylw at ymwybyddiaeth amgylcheddol a chynaliadwyedd byd-eang.



Enillydd Cyffredinol 2023

Enillodd Jasmin Jones o Ysgol Uwchradd Dinbych y wobwr gyntaf ar lefel UG ynghyd â chategori Enillydd Cyffredinol am ei dyluniad o wefrydd brwsh dannedd diwifr triphlyg.

Creodd dyluniad Jasmin argraff fawr ar y beirniaid, am ei agweddau ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ymarferoldeb cyffredinol.

“Rwyf wrth fy modd fy mod wedi ennill - doeddwn i wir ddim yn disgwyl hyn! Mae cymaint o broiectau arbennig yma heddiw ac mae wedi bod yn wych cael cyfle i edrych arnynt. Hoffwn ddiolch i Mr Jones, fy athro Dylunio a Thechnoleg, a Mr Williams, fy mhennaeth. Rwyf mor ddiolchgar am eu cymorth a'u harweiniad; fyddai hyn ddim wedi bod yn bosibl hebddynt. Mae gennym adran Dylunio a Thechnoleg wych yn ein hysgol, sydd wedi cefnogi fy syniadau a'm galluogi i wneud fy ngorau glas.”

2024 Overall Winner

Gwefrydd Brwsh Dannedd Di-wifr
gan Jasmin Jones o Ysgol Uwchradd Dinbych

ADRAN 06

Buddsoddi yn ein pobl a'n planed



Ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau:

Meithrin diwylliant o ymwybyddiaeth amgylcheddol

Cynaliadwyedd; o broses gynhyrchu i bobl

Fel corff, rydym yn cydnabod yr ôl-troed carbon sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau.

Dyna pam ein bod wrthi'n rhoi mentrau newydd ar waith a fydd yn lleihau ein heffaith gyffredinol ar yr amgylchedd ac yn meithrin diwylliant cynaliadwy ymysg ein pobl.

Rydym yn gwneud newidiadau cadarnhaol yn y meysydd canlynol:

- Defnyddio cynhyrchion cynaliadwy ar gyfer argraffu a pheccynnu
- Amgylchedd gwaith sy'n effeithlon o ran egni
- Pwyllgor Goruchwylio Materion Amgylcheddol ar gyfer Ailgylchu a Hyrwyddwyr Materion Gwyrdd Lleol

Ailgylchu ar gyfer dyfodol gwyrddach

Er mwyn lleihau ein hól-troed ecolegol, rydym yn blaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy ac ailgylchadwy yn ein safle argraffu.

Mewn ymgais i helpu'r blaned, rhwng mis Hydref 2023 a mis Mai 2024, rydym wedi ailgylchu mwy na:

 **54 TUNNELL**
O BAPUR ARGRAFFU

MAE HYN GYFWERTH AG ARBED

 **145,000**
LITR O DDŴR
DIGON I LENWI
3 PHWLL NOFIO

927 O GOED 
DIGON I WNEUD
157 MILIWN O BENSILIAU

 **223,000KHW**
DIGON I BWERU
58 O YSTAFELLOEDD DOSBARTH



AAmgylchedd gwaith sy'n hyblyg ac yn effeithlon o ran egni

Eleni, gwnaethom gyflwyno newidiadau arloesol a blaengar i gynllun ffisegol ein gweithle. Ar ôl misoedd o gynllunio a dylunio creadigol, gwnaethom ddatlennu llawr swyddfa gweithio o sawl gweithfan cymunedol amlswyddogaethol, sydd ar gael i bawb. Mae gweithio o sawl gweithfan yn fwy cynaliadwy am ei fod yn lleihau faint o ofod ffisegol sy'n ofynnol ac yn lleihau ein defnydd cyffredinol o egni.

Rydym yn parhau i gefnogi gweithio hybrid, gan alluogi ein staff i gael yr hyblygrwydd o ddewis eu lleoliad gwaith, gan leihau allyriadau o ganlyniad i staff sy'n cymudo.

Mae rhagor o welliannau wedi'u hamserlennu gan gynnwys datrysiadau effeithlonrwydd goleuo newydd i leihau ein hól-troed carbon cyffredinol.

“Rwy'n eithriadol o falch o weithio i sefydliad dyfarnu arweiniol sy'n cydnabod y rôl sydd ganddo i'w chwarae yn lleihau allyriadau carbon ac sy'n mynd ati i gefnogi ffyrdd gwyrddach o weithio. Ategir hyn gan ddiwylliant sy'n galluogi ei staff i fynegi eu syniadau a'u creadigrwydd i gyflawni'r nodau hyn.”

Robert Colwill
Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Gweithrediadau



Hyrwyddwyr Gwyrdd: Ein Tîm Gwyrdd

Y “Tîm Gwyrdd” yw ein grŵp cynaliadwyedd newydd. Ei nod yw gwneud ein gweithle yn lanach, yn wyrddach ac yn fwy cynaliadwy.

Mae'r grŵp yn cyfuno ymdrechion ac adnoddau i gyflwyno mentrau amgylcheddol newydd. Maent yn meithrin ymrwymiad a rennir at gynaliadwyedd.

Bob mis, mae'r tîm yn cwrdd i drafod pynciau amgylcheddol amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys Systemau Rheoli Amgylcheddol, ynni, rheoli carbon a theithio i staff.

Eu hod yw cyflawni rhagoriaeth amgylcheddol a dyfodol mwy cynaliadwy drwy eu harbenigedd a'u hymroddiad.

Grŵp Goruchwyllo Amgylcheddol a Chynaliadwyedd (ESOG)

Diben y Grŵp Goruchwyllo Amgylcheddol a Chynaliadwyedd yw arwain y broses o ddatblygu, gweithredu a rhannu ein taith i gyflawni sero carbon net, gan oruchwyllo gweithgarwch i wella'r amgylchedd yn ein hadeiladau.

Mae'r grŵp yn adolygu cynnydd yn erbyn ein map ffordd amgylcheddol 10 mlynedd ac yn ystyried camau i leihau ein hól-troed carbon i gydymffurfio ag achrediadau Amgylcheddol y Cynllun Cyfleoedd i Arbed Ynni (ESOS) a gweithgareddau amgylcheddol a chynaliadwyedd cyffredinol yn mhob rhan o'r sefydliad.

“Rwy'n falch o fod yn rhan o'r Tîm Gwyrdd! Mae'n gyfle gwych i archwilio datrysiadau cynaliadwyedd â phobl o'r un anian. Mae'n galonogol gweld y sefydliad yn croesawu arferion sy'n ymwybodol o'r amgylchedd. Bydd hyd yn oed yr ymdrechion lleiaf yn creu effaith barhaus!”

Olivia Morgan
Swyddog Gweithredol Marchnata a Chyfathrebu



Arweinwyr cymwysterau y gellir ymddiried ynddynt

Yr holl wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi: Tachwedd 2024



WJEC CBAC Ltd
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX

T: 029 2026 5000
E: gwybodaeth@cbac.co.uk
W: www.cbac.co.uk

Sganiwch y cod QR i ddysgu mwy

Follow us

